Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Plas Coch

**Ffordd Stansty**
**Plas Coch**
**Wrecsam**
**LL11 2BU**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Plas Coch

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Plas Coch |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 308 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 237 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 42 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector Cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%) | 9% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector Cynradd yw 22.2%) | 10.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 35.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | Ionawr 2013 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 23/09/2014 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae'r pennaeth ac arweinwyr eraill Ysgol Plas Coch yn llwyddo i wireddu eu gweledigaeth i ddarparu amgylchedd gofalgar, cefnogol, hapus a diogel i ddisgyblion. Mae hyn yn ei dro yn caniatáu i bron pob disgybl ddatblygu hunanhyder a hunanddisgyblaeth. Cânt eu cefnogi'n effeithiol gan athrawon ymroddedig a staff cymorth sy'n cynorthwyo disgyblion i ddatblygu ystod o fedrau'n gadarn mewn amgylchedd Cymreig balch. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu. Maent yn ymddwyn yn dda, ac yn mwynhau cyfrannu mewn gwersi. Mae llawer yn dod yn ddysgwyr annibynnol fwyfwy yn ystod eu hamser yn yr ysgol, gan ddatblygu medrau cydweithio cryf a dyfalbarhau â thasgau. Maent yn datblygu medrau llythrennedd yn dda, er nad yw ychydig o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn gyson mewn dosbarthiadau a sefyllfaoedd anffurfiol. Wrth i athrawon arbrofi a mireinio dulliau o ymdrin â'r Cwricwlwm i Gymru, maent yn darparu ystod gynyddol o weithgareddau ysgogol a diddorol yn seiliedig ar brofiadau bywyd go iawn. Er enghraifft, mae disgyblion yn datblygu medrau rhifedd a digidol da wrth gymryd rhan mewn tasgau sy'n seiliedig ar ymweliadau diweddar oddi ar y safle.

Drwy'r ysgol gyfan, mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu effeithiol i helpu disgyblion i gael dealltwriaeth lawn o'r themâu y maent yn eu ymdrin â nhw. Maent yn gofyn cwestiynau treiddgar ac yn rhoi adborth gwerthfawr i ddisgyblion ar lafar ac yn ysgrifenedig, gan roi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfoethogi eu gwaith eu hunain. Maent yn cefnogi anghenion unigol disgyblion yn dda, er enghraifft drwy ddarparu sesiynau ychwanegol buddiol i ddisgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae Ysgol Plas Coch wedi ei ffedereiddio ag Ysgol Bro Alun, ysgol gynradd leol arall. Maent yn rhannu'r un corff llywodraethol, a'r un pennaeth, sy'n rhannu ei amser rhwng y ddau safle. Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei ddyletswyddau'n ddiwyd, er enghraifft drwy gynnal ymweliadau safle, ac mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Fel ffederasiwn, mae arweinwyr yn manteisio ar ychydig o gyfleoedd i gydweithio, er enghraifft pan fydd uwch arweinwyr yn gwerthuso gwersi a safonau mewn llyfrau ar draws y ddau safle. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob tro'n  ystyried canfyddiadau eu gweithgareddau monitro mewn modd digon miniog wrth gynllunio ar gyfer gwelliant. Y tu hwnt i'r lefel uwch arweinwyr, nid yw'r trefniant ffedereiddio yn effeithio llawer ar y ffordd y caiff yr ysgol ei rhedeg o ddydd i ddydd.

## Argymhellion

A1 Cryfhau prosesau cynllunio strategol gan flaenoriaethu'r camau pwysicaf ar gyfer gwella deilliannau disgyblion

A2 Annog disgyblion i siarad Cymraeg yn gyson mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Ychydig o ddisgyblion yn unig sy'n cychwyn yr ysgol â medrau llythrennedd a rhifedd sy'n cyfateb i'r hyn a ddisgwylir o ystyried eu hoed. Mae'r gweddill yn meddu ar fedrau ar lefel sy'n is na'r disgwyl. Er hyn, mae llawer yn caffael medrau llafar Cymraeg yn fuan iawn ar ôl cychwyn. Mae bron bob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rheini sydd wedi eu hadnabod fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau gwrando yn effeithiol. Maent yn gwrando'n astud ar eu cyfoedion ac oedolion yn ystod cyflwyniadau a thasgau penodol, ac yn ymateb yn briodol iddynt. Mae llawer yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llafar Cymraeg, a Saesneg lle bo'n briodol, o flwyddyn i flwyddyn. Maent yn barod iawn i sgwrsio â'i gilydd a chydag oedolion, ac yn esbonio'u gwaith yn lled glir. Fodd bynnag, nid yw medrau llafar Cymraeg ychydig o ddisgyblion yn unol â'u hoed a'u gallu o'u mannau cychwyn. Mae llawer yn rhy barod i droi i'r Saesneg mewn gwersi ac ar adegau anffurfiol.

Mae medrau darllen bron pob un yn datblygu'n dda o oed cynnar. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn adnabod llythrennau unigol a geiriau syml sy'n gyfarwydd iddynt yn hyderus. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn darllen testun o'u dewis eu hunain yn hyderus wrth ymchwilio i feysydd penodol ac i ddarllen er pleser. Maent yn defnyddio'u medrau darllen yn llwyddiannus i ymchwilio i wybodaeth benodol fel hanes Clwb Pêl-droed Wrecsam er mwyn creu adroddiad i bapur newydd.

Mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf yn datblygu'n dda. Mae disgyblion y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn dechrau ymarfer eu medrau ysgrifennu cynnar trwy wneud marciau mewn gwahanol gyfryngau a thrwy ddechrau ysgrifennu llythrennau unigol a geiriau syml i gyfleu ystyr. Ym Mlynyddoedd 1 a 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu yn Gymraeg mewn gwahanol arddulliau, lle bo'n briodol. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu disgrifiad ohonyn nhw eu hunain neu gymeriadau eraill fel môr-leidr, neu erthygl syml i bapur newydd ar y gor-ddefnydd o blastig. Mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn ysgrifennu brawddegau mwy estynedig yn y ddwy iaith i ddisgrifio anifail anwes o'u dewis nhw, neu destun yn y gorffennol, presennol a'r dyfodol. Erbyn eu bod ar frig yr ysgol, mae llawer yn ysgrifennu'n aeddfed yn y ddwy iaith mewn cyd-destunau amrywiol. Maent yn deall bod confensiynau penodol y mae angen iddynt gydymffurfio â nhw, fel yr angen i ddefnyddio iaith ffurfiol ac anffurfiol mewn gwahanol fathau o lythyron. Maent yn cymhwyso'u medrau yn effeithiol mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm fel ysgrifennu rhagfynegiad neu gasgliad i ymchwiliau gwyddonol, neu gofnod o ymchwil ar nodweddion gronynnau mewn solid, hylif a nwy.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau rhifedd cadarn ar draws yr ysgol. Yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn, maent yn dechrau adnabod rhifau ac yn defnyddio'u medrau rhifedd mewn cyd-destynau gwahanol, fel i greu graff yn dangos hoff frwyth eu cyfoedion. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn cymhwyso'u medrau yn eu gwaith mewn meysydd dysgu eraill, er enghraifft wrth greu diagram Venn i

ddosbarthu anifeiliaid yn ôl y bwyd maent yn ei fwyta. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 4 yn defnyddio'u medrau rhifedd yn llwyddiannus i ymchwilio i gwestiynau gwyddonol fel canfod os yw pellter y ffynhonnell olau yn effeithiol ar hyd y cysgod, gan fesur y canlyniadau yn addas a chofnodi'r wybodaeth mewn tabl digidol. Maent hefyd yn cofnodi pa mor gyflym mae parasiwtau gydag arwynebedd gwahanol yn disgyn i'r llawr. Ar frig yr ysgol, mae disgyblion yn defnyddio medrau rhifedd yn effeithiol iawn ar deithiau oddi ar y safle, er enghraifft wrth gyfrifo arwynebedd rhannau gwahanol o erddi Erddig. Maent yn datrys problemau bywyd go iawn yn effeithiol, er enghraifft wrth gyfrifo'r elw a wnaed wedi gwerthu nwyddau, wrth godi arian ar gyfer elusen.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau digidol yn fedrus ar draws y cwricwlwm. Maent yn mewngofnodi'n hyderus i'w cyfrifon, yn arbed ffeiliau'n llwyddiannus, ac yn gwella eu gwaith digidol, er enghraifft trwy olygu sleidiau fideo wrth gyflwyno ffeithiau diddorol am tswnamis. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn hyderus wrth ychwanegu trosleisiad a thestun i ffeiliau digidol, er enghraifft wrth gyflwyno cyfarwyddiadau dull coginio. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn gwneud dewisiadau aeddfed ynglŷn â'r offer a'r meddalwedd mwyaf effeithiol i'w ddefnyddio at wahanol ddibenion. Er enghraifft, maent yn gwneud defnydd o offer sgrin werdd a chodau QR er mwyn cyflwyno eu gwaith yn y modd mwyaf effeithiol.

Mae medrau creadigol bron pob un o'r disgyblion yn datblygu'n effeithiol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod o ddeunyddiau yn hyderus i greu gwaith celf sy'n cyfleu trychfilod amrywiol. Maent yn dysgu ystod eang o ganeuon a hwiangerddi ac yn eu cyflwyno'n soniarus i'w rhieni mewn bore coffi. Mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn perfformio'n hyderus wrth gyflwyno eitemau newyddion, er enghraifft am siarc yn dianc o'r acwariwm, sy'n cael ei darlledu i weddill y dosbarth. Ar frig yr ysgol, mae disgyblion yn arbrofi â defnyddio amrywiaeth o gyfryngau i gyfleu ystod o waith celf, sy'n seiliedig, er enghraifft, ar dirluniau yng Ngogledd Cymru.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dod i'r ysgol yn brydlon ac yn hapus. Maent yn dangos safonau ymddygiad da iawn mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol, ac maent yn gwrtais ac yn dangos parch at y staff, ymwelwyr, a thuag at ei gilydd.

Mae lefel diddordeb y disgyblion yn eu gwaith yn uchel, ac mae llawer yn siarad yn fyrlymus am yr hyn maent wedi ei ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a medrus sy'n barod i ddysgu. Maen nhw'n symud at waith yn sydyn, ac yn awyddus i gwblhau tasgau. Mae llawer yn dangos gwydnwch wrth ddyfalbarhau â'u gwaith, ac yn ei gwblhau i'r safon orau y gallent. Mae'r rhan fwyaf yn dewis tasgau sy'n eu herio i gyrraedd safonau uchel ar draws ystod o wersi a meysydd dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'r agweddau ac ymddygiadau allweddol a fydd o gymorth iddynt ddysgu drwy gydol eu bywydau. Maent yn datblygu eu gallu i weithio'n annibynnol yn gynyddol effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i weithio ar heriau mewn parau a grwpiau i ddatblygu medrau trawsgwricwlaidd fel darllen cyfarwyddiadau i greu cylched trydanol. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau'r gwaith ac yn canolbwyntio'n effeithiol ar

dasgau am gyfnodau estynedig. Mae disgyblion yn ymgysylltu â phrofiadau a syniadau newydd ac yn mwynhau'r her yn enwedig ym maes rhifedd ar frig yr ysgol, ac ym Mlwyddyn 1 a 2 wrth gyflwyno rhagolygon y tywydd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwerthfawrogi ac yn parchu cyfraniadau pobl eraill, er enghraifft wrth wrando ar gyd-ddisgyblion yn siarad ac wrth gymryd tro yn y meithrin a'r derbyn. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'u lles emosiynol sy'n cael ei gefnogi gan gyfnodau'r Clwb Encil ym mhob dosbarth. Mae hyn yn datblygu eu gallu i drafod a deall eu hemosiynau, a datblygu empathi tuag at eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o sut i wneud dewisiadau iach mewn perthynas â diet. Maent yn siarad yn goeth am bwysigrwydd bwyta ffrwythau yn ystod amser Bwyd Bore, a phwysigrwydd bwyta diet cytbwys er mwyn eu lles a'u tyfiant. Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu eu medrau corfforol a gwneud dewisiadau iach yn briodol wrth ymgymryd â gweithgareddau corfforol yn ystod gwersi, amser egwyl ac amser cinio, a thrwy dimau chwaraeon amrywiol yr ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn gwneud defnydd da o barc yr ysgol i ddatblygu medrau corfforol cadarn.

Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth o hawliau plant, fel yr hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o ddibenion rheolau, gwobrau a chosbau yn yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol wedi llunio rheolau newydd ar gyfer yr ysgol yn seiliedig ar YPC (Ysgol Plas Coch), sef Ymdrech, Parch, Cymraeg. Mae disgyblion yn barod i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth a chyfrifoldebau fel y cyngor ysgol, eco bwyllgor a llysgenhadon iaith. O ganlyniad, mae disgyblion yn chwarae rhan briodol ym mywyd a gwaith yr ysgol; er enghraifft, bu'r cyngor ysgol yn rhan o'r broses penodi staff. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod oedolion yn yr ysgol yn gwrando ar eu barn ac yn ei hystyried mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, er enghraifft wrth ddewis thema, a phenderfynu ar weithgareddau yn deillio ohonynt.

Yn dilyn y pandemig, nid yw arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blwyddyn academaidd 2021-2022. Yn hytrach, adroddir ar ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o Faes Arolygu 4.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol wedi cynllunio'n fwriadus i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r staff yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddylanwadu'n uniongyrchol ar y thema dymhorol a chynnwys eu gweithgareddau, sy'n eu hysgogi i gymryd rhan weithredol yn eu dysgu. Mae'r cwricwlwm yn eang a chyfoes ac wedi'i seilio ar themâu diddorol ac ystod eang o brofiadau dysgu go iawn. Mae hyn yn datblygu medrau disgyblion yn effeithiol yn yr holl feysydd profiad a dysgu, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a medrau digidol, ynghyd â'u hawydd parhaus i ddysgu.

Mae'r ysgol yn datblygu ei chwricwlwm i adlewyrchu natur ei chyd-destun yn llawn. Mae hyn yn cynnwys cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n adlewyrchu natur ddiwylliannol, ieithyddol ac amrywiol Wrecsam, Cymru a'r byd ehangach. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o'u hardal leol ynghyd â'i lle o fewn y byd. Mae

hefyd yn rhoi ffocws ar ddatblygu elfennau o’r dysgu ar sail ymchwiliad. Er enghraifft, mae’r disgyblion ieuengaf yn dyfeisio ffyrdd o helpu’r pili pala sydd ar ‘stepen y drws’, sef thema’r tymor hwn. Trwy ddefnydd cyson o ymwelwyr, arbenigwyr ac ymweliadau â mannau diddorol, mae'r staff yn sicrhau eu bod yn cyfoethogi'r cwricwlwm mewn modd naturiol ac effeithiol. Er enghraifft, trefnwyd ymweliadau yn ddiweddar i Neuadd a Gerddi Erddig, sy’n lleol i’r ysgol ac yn sail i waith trawsgwricwlaidd y tymor. Yn dilyn yr ymweliad, mae’r disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau gwrando a siarad trwy greu clipiau fideo yn disgrifio hanes y plas, neu roi cyfarwyddiadau manwl i’w cyfoedion i ddilyn drysfa ar fuarth yr ysgol i efelychu’r un sydd yn Erddig. Mae grŵp arall yn creu cylchedau trydan yn cynnwys bwlb sydd yn seiliedig ar glychau’r gweision yn Neuadd Erddig. Mae’r gweithgareddau hyn yn heriol, yn ddiddorol, ac yn sbardun hynod effeithiol i annog y disgyblion i ddysgu’n annibynnol.

Mae perthynas waith gefnogol a chynhyrchiol yn bodoli rhwng yr athrawon, y staff cynorthwyol a’r disgyblion. Mae hyn yn annog parch, cwrteisi ac ymddiriedaeth ac yn cyfrannu’n hynod gadarn at yr ethos o gynhwysiant sydd yn yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf o oedolion yn modelu iaith yn briodol ac yn annog a chefnogi’r disgyblion i ddefnyddio’r Gymraeg yn gyson. Er hyn, mae tuedd gan lawer o’r disgyblion i droi at y Saesneg yn rhy aml mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Trwy gyfrwng tasgau amrywiol a diddorol, mae'r athrawon a'r staff cynorthwyol yn cyflwyno medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth newydd yn fedrus i'r disgyblion. Maent yn darparu cyfleoedd ystyrlon iddynt ddysgu trwy brofiadau ymarferol yn yr amgylchedd dysgu yn y dosbarth tu mewn a thu allan. Er enghraifft, darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am fyd natur yn yr ardal goedwig. Mae'r disgyblion ieuengaf yn manteisio ar amrywiaeth eang o ddarpariaeth chwarae yn yr ardal allanol fel y wal ddringo a’r bont. Mae hyn, yn ei dro, yn eu hannog i ddatblygu medrau corfforol da.

Mae'r dosbarthiadau a'r ardaloedd amrywiol eraill yn lleoedd lliwgar lle gall pob grŵp o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mwyaf a lleiaf abl, ddysgu’n gynhyrchiol. Mae’r arddangosfeydd yn ysgogol ac yn gyfuniad o rai sy'n dathlu gwaith disgyblion ac eraill sy'n gymorth i’w dysgu. Mae hyn yn annog disgyblion i gynhyrchu gwaith o safon uchel, sy’n addas i’w arddangos.

Mae arferion gorau'r addysgu, sy’n amlwg ar draws ar ysgol, yn effeithiol. Mae'r athrawon yn sicrhau bod rhediad da i’w gwersi. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o’r disgyblion, yn arbennig o ran eu dyfalbarhad yn ystod sesiynau dysgu. Maent yn rhannu’r nod yn glir ac yn defnyddio ystod eang o adnoddau diddorol i ennyn diddordeb disgyblion. Maent yn eu holi'n effeithiol a'i herio i ymestyn eu hymatebion a chanfod eu dealltwriaeth. Mae llawer o’r athrawon yn darparu adborth llafar pwrpasol i'r disgyblion sy’n eu helpu i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a sut y gallant wella'u gwaith. Maent yn marcio gwaith ysgrifenedig disgyblion yn gyson ac mae llawer yn rhoi sylwadau buddiol sy’n gymorth iddynt wella cynnwys eu gwaith, yn hytrach nag ond cywiro camgymeriadau ieithyddol. Rhoddir cyfleoedd cyson a chynyddol i ddisgyblion adolygu a gwneud addasiadau i’w gwaith eu hunain ac i waith eu cyfoedion mewn parau yn ogystal. Mae hyn yn cryfhau eu dealltwriaeth o’r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn llwyddo mewn tasgau ac yn eu hannog i gynhyrchu gwaith o safon uchel.

Mae athrawon yn asesu cynnydd a datblygiad unigolion a grwpiau penodol yn gynhwysfawr. Maent yn adnabod yn gynnar y disgyblion hynny sydd mewn perygl o dangyflawni neu'r rhai sy'n fwy abl ac yn addasu'r ddarpariaeth yn unol â'r angen. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob disgyblyn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae holl staff Ysgol Plas Coch yn cyfrannu'n bwrpasol tuag at greu a chynnal perthynas bositif gyda disgyblion o bob oedran a gallu. Mae'r parch a'r gofal y naill i'r llall yn nodwedd gref, sy'n effeithio'n gadarnhaol ar agweddau disgyblion a'u parodrwydd i ddysgu. Mae'r perthynas waith effeithiol sydd wedi ei sefydlu yn arwain at awyrgylch ysgogol lle mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn ystyriol o bobl eraill, ac yn ymdrin â'u dysgu yn gadarnhaol.

Mae staff yn rhoi cryn sylw i drafod pryderon disgyblion, sy'n rhan annatod o waith beunyddiol yr ysgol. Er enghraifft, maent yn darparu cyfnodau myfyrio rheolaidd sy'n galluogi disgyblion i drafod eu pryderon, ac maent wedi sicrhau mannau penodol, fel y Tipi-Trafod, lle mae disgyblion yn medru mynd er mwyn sgwrsio'n dawel gyda'u cymheiriaid a sicrhau sylw staff.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau llwyddiannus ar waith er mwyn olrhain a monitro cynnydd disgyblion. Trwy ei systemau tracio buddiol, mae staff yn adnabod y disgyblion fyddai'n elwa o gymorth ychwanegol yn fuan, ac yn trefnu cefnogaeth benodol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn darparu ymyraethau sy'n cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd gwerthfawr â'u medrau llythrennedd, rhifedd a lles emosiynol. Mae'r cydlynydd ADY, ynghyd â'r pennaeth, yn defnyddio cyfarfodydd gyda staff eraill er mwyn gwerthuso effaith yr ymyraethau hyn yn ofalus. Trwy gydweithio effeithiol, maent yn gosod camau defnyddiol ar gyfer gwella sy'n galluogi disgyblion i barhau i wneud cynnydd cadarn. Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus ag asiantaethau arbenigol er mwyn creu rhaglenni unigol o ansawdd uchel sy'n cefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu mwy cymhleth i wneud cynnydd da.

Mae'r ysgol yn cynnig nifer o gyfleoedd gwerthfawr sy'n annog disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden. Er enghraifft, maent yn manteisio ar sesiynau dawnsio gan gwmni allanol, yn cystadlu'n rheolaidd yng nghystadlaethau chwaraeon yr Urdd, ac yn mynychu gwyliau rygbi a phêl-droed mewn cydweithrediad ag 'Actif Wrecsam'. Mae'r ysgol hefyd yn darparu cyfleoedd buddiol i hyfforddi disgyblion i feicio'n ddiogel, trwy bartneriaeth â hyfforddwr arbenigol.

Mae ystod eang o weithgareddau a chyfleoedd yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o'u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant. Er mwyn datblygu gwerthfawrogiad disgyblion o ddiwylliant Cymru, mae'r ysgol yn hyrwyddo gweithgareddau fel dathlu canmlwyddiant Urdd Gobaith Cymru, dathlu diwrnod Shwmae Su'mae, a threfnu gweithdai gydag cherddorion o Gymru ac ymweliad â gig lle mae bandiau Cymreig yn perfformio. Mae'r ysgol hefyd yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i gysylltu â'r gymuned leol, trwy gynnal ymweliadau a chyngherddau yn Eglwys San Silyn a theithiau sy'n cefnogi eu dysgu i erddi Erddig. Enghraifft hynod effeithiol yw'r cysylltiad buddiol gyda siopau lleol, lle mae disgyblion wedi creu arwyddion Cymraeg er mwyn hybu defnydd o'r iaith yn y gymuned.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas sy'n cyfrannu at ddatblygu gwybodaeth y disgyblion am wahanol greodau a datblygu eu helfen ysbrydol a moesol. Trwy gyfnodau myfyrio a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar storïau o'r Beibl, mae'r disgyblion yn elwa o gyfleoedd i ystyried negeseuon pwysig fel goddefgarwch a helpu pobl eraill, yn ogystal â chysylltu'r rhain â'u profiadau eu hunain. Mae'r disgyblion hŷn yn cael cyfleoedd da i fyfyrio ar faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth a chydraddoldeb, er enghraifft trwy drafod pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol+ (LGBT+) mewn ffordd sensitif. Yn ogystal, mae'r cynghorwyr ysgol wedi trefnu diwrnod i ddathlu amrywiaeth trwy annog disgyblion i wisgo sanau od i'r ysgol. Mae'r profiadau hyn yn cynorthwyo disgyblion i ymchwilio i faterion sy'n gysylltiedig â goddefgarwch, cydraddoldeb a pharch at bobl eraill.

At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu'n ddinasyddion gweithgar a lleisio eu barnau am faterion sy'n ymwneud â'r ffordd maent yn dysgu. Maent hefyd yn caniatàu i ddisgyblion ddylanwadu ar ychydig o benderfyniadau ysgol gyfan trwy gynghorau disgyblion amrywiol. Er enghraifft, bu'r cyngor ysgol yn rhan o'r broses i benodi staff. Mae'r cyngor ysgol hefyd wedi derbyn cefnogaeth gan yr ysgol i drefnu 'diwrnod heddwch' er mwyn codi arian tuag at elusen apêl yr Wcráin.

Mae yna amryw o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddefnyddio eu dychymyg ac ymgysylltu â'r celfyddydau creadigol yn ystod gwersi. Wrth ymgymryd â phrosiect digidol ysgol gyfan, caiff disgyblion y rhyddid i arddangos eu doniau. Er enghraifft, maent yn creu bocsys cysgodion, pypedau a phropiau amrywiol i greu sioe maent yn ei recordio a'i throsi i stori fideo ddigidol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau monitro ac olrhain presenoldeb cadarn, sy'n effeithion'n bositif ar ganran presenoldeb disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae staff yn goruchwylio'r disgyblion yn briodol yn ystod amseroedd hamdden. Mae gan y staff ymwybyddiaeth gadarn o brosesau diogelu ac mae arweinwyr yn ymateb yn briodol i achosion unigol, gan gydweithio ag asiantaethau eraill yn effeithiol, lle bo'n briodol. Mae gan yr ysgol weithdrefnau addas i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion emosiynol, er enghraifft trwy ddarparu sesiynau i drafod eu teimladau a chyfleoedd iddynt  ymdawelu wrth ddychwelyd i'w gwersi.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol yn seiliedig ar weledigaeth yr ysgol i hybu hunanhyder a hunanddisgyblaeth disgyblion. Ynghyd â'i ddirprwy, mae'n creu ac yn cynnal tîm effeithiol, sydd yn ei dro yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn dda mewn amgylchedd diogel a gofalgar. Maent yn hyrwyddo ac yn ymgorffori gwerthoedd proffesiynol sy'n gosod esiampl gref i ddisgyblion. Fe'u cynorthwyir gan lywodraethwyr sy'n gweithredu fel cyfeillion beirniadol gwerthfawr, gan ddarparu cymorth a her addas i'r ysgol.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau effeithiol i werthuso perfformiad yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys casglu amrywiaeth o dystiolaeth uniongyrchol am sawl agwedd o'i gwaith, gan gynnwys addysgu a dysgu. Mae arweinwyr yn darparu adborth gwerthfawr i'r athrawon yn dilyn arsylwadau gwersi rheolaidd ac ymarferion craffu ar

lyfrau. Maent yn derbyn targedau unigol defnyddiol o ganlyniad i brosesau rheoli perfformiad trylwyr. Mae gan lywodraethwyr ran sefydledig mewn gweithdrefnau hunanwerthuso, fel cynnal teithiau dysgu neu wrando ar gyflwyniadau, sy'n eu helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth o flaenoriaethau datblygu’r ysgol. Er enghraifft, mae llywodraethwyr yn elwa o fewnbwn gan aelodau’r cyngor ysgol i ymestyn eu dealltwriaeth o sut maent wedi datblygu eu medrau digidol. Mae arweinwyr yn rhoi sylw pwrpasol i flaenoriaethau cenedlaethol, fel paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a chadw dysgwyr yn ddiogel. Mae arweinwyr canol yn dylanwadu’n gynyddol ar ddysgu ac addysgu yn eu hadrannau. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw arweinwyr ar bob lefel yn canolbwyntio digon ar brif ganfyddiadau gweithgareddau hunanwerthuso wrth gynllunio ar gyfer gwella. O ganlyniad, mewn ychydig o feysydd, nid yw'r cynnydd mor gyflym ag y gallai fod.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau yn briodol. Maent yn sicrhau bod yr ysgol yn gwneud defnydd addas o’r gyllideb, gan gynnwys unrhyw grantiau ychwanegol. Er enghraifft, maent yn cyflogi staff i gefnogi disgyblion i adfer eu hyder a'u gallu i siarad yn y Gymraeg ar ôl cyfnodau clo COVID-19. Maent hefyd yn buddsoddi mewn hyfforddiant i staff mewn meysydd yn ymwneud â chefnogi lles dysgwyr. Mae arweinwyr yn darparu ystod o gyfleoedd dysgu broffesiynol defnyddiol i athrawon a staff cefnogi sy’n cyd-fynd â blaenoriaethau gwella’r ysgol. Maent yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion eraill. Er enghraifft, maent yn trafod adnoddau a gweithgareddau o fewn eu rhwydwaith clwstwr TGCh, ac yn rhannu enghreifftiau o dempledi cynllunio yn rhanbarthol. Mae arweinwyr yn cyfathrebu’n effeithiol gyda rhieni, er enghraifft trwy ddefnyddio ap digidol i rannu gwybodaeth.

Mae arweinwyr yn hybu bwyta ac yfed yn iach yn briodol. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion iau baratoi a blasu gwahanol lysiau yn y dosbarth, gan sgorio eu hoff liw o bupur, ac yn darparu sesiynau coginio i ddisgyblion hŷn.

Mae’r pennaeth yn treulio tua hanner ei amser bob wythnos ar safle Ysgol Plas Coch, a'r hanner arall ar safle Ysgol Bro Alun, gyda’r dirprwyon yn gyfrifol am y safleoedd yn ei absenoldeb. Mae arweinwyr yn manteisio ar gyfleoedd achlysurol i'r staff a'r disgyblion gydweithio fel rhan o'r cytundeb ffedereiddio. Er enghraifft, mae staff yn mynychu digwyddiadau hyfforddi ar y cyd, ac mae disgyblion hŷn yn cael cyfleoedd i gydweithio cyn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/08/2022